# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023

Amser: 09.10 - 09.40

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Llifogydd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar gwrdd ag undebau llafur y GIG (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 24 Ionawr*
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) (15 munud)~~ *Gohiriwyd tan 14 Chwefror*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.30pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 24 Ionawr –**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gofal sylfaenol a chymunedol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin (30 munud) *wedi'i ohirio o 17 Ionawr*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y newidiadau a ganlyn i fusnes ar yr amserlen:

**Dydd Mawrth 31 Ionawr –**

- Cwestiynau i Weinidog yr Economi (45 munud) *Symudwyd o 1 Chwefror*
- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud) *Symudwyd o 1 Chwefror*
- Cwestiynau Amserol (20 munud) *Symudwyd o 1 Chwefror*
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) (15 munud)

**Dydd Mercher 1 Chwefror –**

- ~~Cwestiynau i Weinidog yr Economi (45 munud)~~ *Symudwyd i 31 Ionawr*
- ~~Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)~~ *Symudwyd i 31 Ionawr*

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud yr ychwanegiadau a ganlyn i'r amserlen:

**Dydd Mercher 1 Chwefror –**

- ~~Cwestiynau Amserol (20 munud)~~ *Symudwyd i 31 Ionawr*
- ~~Datganiadau 90 Eiliad (5 mun)~~ *Tynnwyd yn ôl*
- ~~Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 8 Chwefror*
- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar absenoldeb disgyblion (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 8 Chwefror*
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 8 Chwefror*
- ~~Dadl fer: Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 8 Chwefror*

**Dydd Mercher 8 Chwefror 2023 –**

- <u>Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)</u> *Symudwyd o 1 Chwefror*
- <u>Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar absenoldeb disgyblion (60 munud)</u> *Symudwyd o 1 Chwefror*
- <u>Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)</u> *Symudwyd o 1 Chwefror*
- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)</u>
- <u>Dadl fer: Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)</u> *Symudwyd o 1 Chwefror*
- ~~Dadl fer: Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 15 Chwefror*

### 3.4 Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – dethol cynnig i'w drafod

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunodd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 25 Ionawr:

**Rhun ap Iorwerth**

**NNDM8155**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig am Fil ar leihau ôl-troed carbon digidol

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) ymateb i'r angen i fod yn fwy effeithlon yn ein defnydd o ddigidol yng Nghymru, fel rhan o'r ymdrech i gyrraedd net sero, yn benodol o ran defnydd ynni i redeg platfformau digidol;

b) cynnwys strategaeth i ymdrin â data sy'n cael ei greu, eu gadw a'i brosesu mewn ffordd fwy effeithlon o ran defnydd ynni;

c) gosod targedau ar gyfer sicrhau bod canolfannau data yn rhedeg yn y modd mwyaf effeithlon, yn cynnwys drwy ddefnyddio ffynhonnellau ynni adnewyddadwy, a thrwy hynny gefnogi datblygu sector data gwyrdd yng Nghymru;

d) sicrhau bod cynaliadwyedd yn sail i bob penderfyniad a wneir wrth ymdrin â data gan gyrff cyhoeddus;

e) annog arloesi yn ddigidol i helpu i dad-garboneiddio ac i gyrraedd amcanion net sero cenedlaethol.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)

Nododd y Pwyllgor Busnes bryderon Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch yr amserlenni ar gyfer craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) oherwydd cafodd y Memorandwm ei osod yn hwyr.

Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'n ymateb i lythyr y Pwyllgor Busnes ar y mater hwn, ac y byddai'n anfon copi o'r ymateb hwnnw at y pwyllgorau.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch ymweliad y pwyllgor sydd ar y gweill

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cais i Aelodau'r Pwyllgor gael eu hesgusodi o'r Cyfarfod Llawn ar 26 Ebrill 2023, a chytunwyd arno.

## 6 Unrhyw faterion eraill

**Gweithredu diwydiannol ar 1 Chwefror**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod yr effaith ar fusnes y Senedd yn sgil gweithredu diwydiannol a drefnwyd gan aelodau Undeb PCS ar gyfer dydd Mercher 1 Chwefror.

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.5(iv), pleidleisiodd mwyafrif y Pwyllgor i symud busnes y Cyfarfod Llawn a amserlennwyd yn flaenorol ar gyfer 1 Chwefror, gyda'r effaith na fyddai Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnal ar y diwrnod hwnnw. Fe bleidleisiodd y Ceidwadwyr Cymreig yn erbyn aildrefnu busnes o 1 Chwefror.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i symud y Cwestiynau Amserol a'r Cwestiynau i Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i 31 Ionawr, ac i aildrefnu'r Ddadl Aelodau, dadl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yr Amser a ddyrannwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig a'r Ddadl Fer ar gyfer dydd Mercher 8 Chwefror. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i amserlennu dwy Ddadl Fer ar 15 Chwefror.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i symud y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar i'w hateb ar 31 Ionawr i ddydd Mawrth 24 Ionawr, ac i symud y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar a chynigion i'w trafod ar 8 Chwefror i ddydd Mawrth 31 Ionawr.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y gallai'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gynnal eu cyfarfodydd fore Mawrth 31 Ionawr yn lle'r cyfarfodydd sydd ar yr amserlen ar gyfer 1 Chwefror.

**Adolygiad o'r darpariaethau ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy**

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa eu Haelodau y bydd yr arolwg i lywio'r adolygiad presennol o'r darpariaethau ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy yn cau am ganol dydd, dydd Gwener 20 Ionawr.